cynllun prentisiaeth
gwasanaeth tân ac achub de cymru

south wales fire and rescue service
apprenticeship scheme



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

# PRENTISIAID Gweinyddol

Mae eich gyrfa yn dechrau fan hyn

# Gweinyddol

## **Prentisiaeth 2 Blynedd,**
## Medi 2018 – diwedd Awst 2020

Cyflog cychwynnol £16,394 - £16,495

A oes gennych ddiddordeb mewn cychwyn gyrfa yn Gweinyddol? A ydych yn frwdfrydig, yn drefnus ac â diddordeb i gael profiad gwaith taledig wrth dderbyn cymwysterau cydnabyddedig?

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n lansio Prentisiaeth Weinyddol o fewn yr adrannau canlynol:

- Cyllid
- Adnoddau Dynol*
- Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau*
- Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau

Safle 2 flynedd yw hon lle byddwch yn ymgymryd â gweithgareddau gweinyddol o fewn adeilad ein Pencadlys yn Llantrisant. Bydd y Brentisiaeth yn rhoi'r cyfle i chi:-

- Ennill profiad gwaith gwerthfawr gyda chyflogwr dibynadwy
- Ddysgu mwy am rôl gweinyddol o fewn sefydliad mawr
- Ddatblygu sgiliau sy'n berthynol i waith fydd yn cynyddu eich posibiliadau cyflogaeth i'r dyfodol
- Ennill cymwysterau Prentisiaeth Lefel 2 a 3 o fewn eich maes arbenigedd

> *"Ces i brofiad gwaith da ac ennillais i gymhwyster.*



Bydd gofyn i bob gweithiwr o fewn y Gwasanaeth ufuddhau i Werthoedd Craidd y Gwasanaeth a'u hyrwyddo:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn bwrpasol
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

# Gweithio gyda ni

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo i wneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hwy. I gyflawni hyn, gwyddwn fod angen i ni fuddsoddi i ddenu, cynnal a datblygu'r bobl orau ar gyfer pob swydd ar draws y sefydliad.

# Manteision gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru

- Cyfleusterau campfa sydd ar y safle
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Parcio am ddim ar y safle
- Mynediad i fanteision a chynlluniau lles y Gwasanaeth
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau banc

# Mwy am yr Ategoliaeth Gweinyddol

Bwriad y Brentisiaeth hon yw rhoi'r cyfle i chi ddatblygu sgiliau a phrofiadau gwerthfawr sy'n berthnasol i'r gwaith. Rydym yn ymroddedig i'ch cynorthwyo i gamu ymlaen.

Rydym yn cydnabod bod cychwyn swydd newydd yn gallu bod yn gyffrous a brawychus ill dau, a rhoddwyd pecyn cymorth mewn lle gennym i'ch cynorthwyo i ddod i'n nabod ac i deimlo'n hyderus yn eich gwaith. O'r funud byddwch yn cychwyn, cewch wybod ein bod o ddifrif wrth ystyried eich lles:

- Cewch dderbyn cyfnod anwytho dwys a gynlluniwyd i'ch cynorthwyo i ddod i adnabod a deall sut rydym yn gweithio
- Cewch gynllun gwaith manwl a ddatblygwyd i sicrhau eich bod yn derbyn ystod o brofiadau gwaith gwerthfawr gyda ni
- Neilltuir hyfforddwr i chi, a fydd yn ymroddedig i sicrhau y bydd gennych yr holl gefnogaeth sydd angen arnoch i berfformio'n effeithiol
- Ar ddiwedd y cynllun dwy flynedd, fe'ch darparwn â chyfarwyddyd ar ganfod gwaith a chystadlu o fewn y broses recriwtio

# Sgiliau Iaith Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i allu cefnogi hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau o ansawdd drwy gyfrwng y Gymraeg ac fel y cyfryw, byddai'n ddymunol pe bai'r ymgeisydd llwyddiannus yn siarad Cymraeg, a bod yn barod i ddefnyddio'r iaith o fewn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae sgiliau Cymraeg yn Hanfodol ar gyfer y prentisiaethau Adnoddau Dynol* a Diogelwch Cymunedol*.

## Ni all ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hystyried:

- fod â chymwyster uwch na gwrthdrawiadol o fewn yr un pwnc yn barod
- fod yn ymgymryd ag unrhyw gymhwyster arall a ariannir gan lywodraeth

# Eich dewisiadau gyrfa




## Edrychwn ymlaen at dderbyn eich Cais!

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y ddwy iaith.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol a dymunwn annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.

**Brysiwch - bydd angen derbyn pob cais erbyn 12:00 canol dydd, yr 2il Orfennaf 2018**

Am fwy o wybodaeth am y cynllun Prentisiaeth

01443 232200 : personel@decymru-tan.gov.uk

www.decymru-tan.gov.uk @SWFRS_Careers